



**Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru**

**North Wales
Economic Ambition Board**

**TAFLEN BENDERFYNIAD
Dydd Gwener, 28 Ionawr 2022**

Dyddiad y Penderfyniad:

Dydd Gwener, 28
Ionawr 2022

PWNC

Eitem 5:ADOLYGIAD ARIANNOL CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd yr adolygiad trydydd chwarter referniw a chyfalaf Cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2021/22.

Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2021/22 i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a fydd ar gael yn y dyfodol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd tanwariant a ragwelir o £297,140 yn erbyn y gyllideb referniw yn 2021/22. Mynegwyd y gellir trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.

Mynegwyd fod llithriad bach pellach ar y rhaglen gyfalaf o ganlyniad i oedi gydag achos busnes terfynol un o'r prosiectau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.



**Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru
North Wales
Economic Ambition Board**

**TAFLEN BENDERFYNIAD
Dydd Gwener, 28 Ionawr 2022**

Dyddiad y Penderfyniad:

Dydd Gwener, 28
Ionawr 2022

PWNC

Eitem 6 :CYNLLUN TWf GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD
CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Nodwyd fod Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddarau.

Cymeradwywyd i gyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Rhagfyr 2020 bu i'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.
